Ein cyf: MB/EH/1229/09
Eich cyf:

Jenny Randerson AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2009

Annwyl Jenny,

Yn ystod y Cwestiynau a ofynnwyd i Brif Weinidog Cymru ar 24 Tachwedd, codwyd pryderon gennych ynghylch Gwasanaethau Meddygon Teulu a Fferyllfeydd. Addawodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch chi yngl• n â'r pwyntiau a wnaethoch.

Ysgrifennoch ataf ar 16 Tachwedd gan fynegi pryderon ynghylch nifer meddygfeydd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yng Nghaerdydd sydd â rhestrau llawn. Yn fy ymateb, dywedais wrthych fy mod wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan ofyn iddi ysgrifennu ataf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r BILl i fynd i'r afael â'r broblem a'r camau a gymerwyd ganddo.

O ran y gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllfa, mae gwasanaethau gwell trwy'r contract fferyllfeydd cymunedol yn cael eu cynllunio a'u datblygu gan Fyrddau Iechyd Lleol lle y bo'n briodol ac yn unol ag anghenion y bobl leol. Mae manylion templed ar gyfer gwasanaethau gwell wedi'u datblygu i sicrhau elfen o ddilyniant, er y gellir addasu'r rhain i'w defnyddio'n lleol. Er bod Byrddau Iechyd Lleol yn rhannu gwybodaeth a phrofiad, maent wedi datblygu'r gwasanaethau hyn yn hanesyddol fel y maent yn ei ystyried yn addas. Fodd bynnag, bydd y gwaith o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn cynyddu'r cydweithio ac yn annog Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu dulliau Cymru gyfan o ddatrys problemau fel hyn.

Yn ogystal, fel y gwyddoch, mae fy Ngr• p Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Fferyllfa eisoes wedi argymell y dylid safoni gwasanaethau gwell o fewn fframwaith y contract ar gyfer fferyllfeydd ledled Cymru. Rwyf wedi gofyn iddynt fwrw ymlaen â'r gwaith hwn a sicrhau bod eu hargymhellion yn cael eu gweithredu.

Ar hyn o bryd, mae'r Gr• p Gorchwyl a Gorffen yn gweithio ar hyn gyda rhanddeiliaid allweddol a'r GIG, ac rwy'n disgwyl cael yr adroddiad terfynol gan y Gr• p ym mis Rhagfyr. Bydd y gwaith hwn yn ategu ein hymdrechion i harneisio potensial fferyllfeydd cymunedol i wella canlyniadau ar gyfer cleifion a dangos pwysigrwydd Fferyllwyr Cymunedol fel rhan annatod o ddarpariaeth iechyd.